

Atodiad 3

Canllawiau i'r staff ynghylch Parchu Pobl Drawsrywiol

Dyma i chi ganllawiau anffurfiol defnyddiol ynglŷn â sut i drin pobl drawsrywiol i gydweithwyr rhywun sy'n trawsrywiol.

- Meddyliwch am y person fel y mae yn y rhywedd o'u dewis.
- Defnyddiwch yr enw a'r rhagenw personol y mae'r person yn gofyn ichi eu defnyddio. Os nad ydych chi'n siŵr beth yw'r rhagenw personol cywir, gofynnwch yn gwrtais pa enw a rhagenw y maent yn eu defnyddio. Os byddwch chi'n gwneud camgymeriad gyda'r rhagenwau, cywirwch eich hun a gadael iddi. Peidiwch â gwneud môr a mynydd o'r peth.
- Cofiwch barchu preifatrwydd pobl. Peidiwch â gofyn beth yw eu henw 'go iawn' neu eu henw 'geni'. Mae pobl drawsrywiol yn aml yn gyndyn o ddatgelu gwybodaeth am eu gorffennol, yn enwedig os ydynt yn credu y gallai effeithio ar sut y bydd pobl yn eu gweld nhw yn y presennol.
- Peidiwch â dweud wrth neb arall am statws trawsrywiol rhywun. Os oes rhaid cadw dogfennau sydd â hen enw a rhyw'r person arnynt, cadwch nhw'n gyfrinachol.
- Os clywch chi, neu os gwelwch chi aelodau o'r staff neu fyfyrwyr yn defnyddio iaith neu ymddygiad trawsffobig, heriwch hynny ac/neu dewch â'r peth i sylw rhywun sydd mewn awdurdod.
- Parchwch ffiniau pobl. Os teimlwch ei bod yn briodol gofyn cwestiwn personol, gofynnwch yn gyntaf a yw'n iawn gwneud hynny. Mae cwestiynau personol yn cynnwys unrhyw beth sy'n ymwneud â bywyd rhywiol rhywun, anatomeg (nid yn unig y genitalia) a'u statws o ran perthynas - y gorffennol, y presennol neu'r dyfodol. Mae cwestiynau am drawsnewid meddygol, megis 'Ydych chi ar hormonau?' yn gallu bod yn bersonol.
- Gwrandewch ar y person, a gofynnwch a pharchwch nhw o ran y ffordd y maen nhw am gael eu trin ac o ran sut mae cyfeirio atynt.